

Safonau Dilysadwy WFC ar gyfer Glastir

Canllawiau a safonau dilysadwy ar gyfer dosbarthu methiannau
Glastir

Fersiwn 3.0 2019



Y Gofyn

Gwarchod ardaloedd cynefin presennol.

Mae cynefin yn cael ei ddisgrifio fel

1) unrhyw llystyfiant â llai na 25% ohono'n rhywogaethau amaethyddol sydd wedi'u hau yn unol â'r rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (EIA), a

2) PHOB TIR sydd wedi'i gynnwys o dan amodau cynnal a chadw, adfer, sefydlu neu greu cynefinoedd mewn cytundebau Amaeth-Amgylcheddol blaenorol.

Mae'r mesurau canlynol yn berthnasol i dir cynefin presennol yn unig:

- Peidiwch ag aredig na thrin y tir.
- Ni chewch rowlio na llyfnu'r tir ag oged gadwyn (chain-harrow) mewn ardaloedd cynefin yn ystod y dyddiadau a nodir yn y contract.
- Peidiwch â gosod draeniau newydd na newid y draeniau sydd yno'n barod. Nid yw hyn yn cynnwys gwaith cynnal a chadw arferol.
- Peidiwch â thorri mawn.
- Peidiwch â chlirio ffosydd rhwng 1^{af} Mawrth ac 31^{ain} Awst.
- Peidiwch â gwasgaru slyri, gwrtaith anorganig, slag basig, gwymon calchog, slwtsh carthion, slwtsh papur gwastraff na gwastraff arall o'r fferm na'r tu allan i'r fferm ar y tir hwn.
- Cewch wasgaru tail buarth dim ond lle bydd un o opsiynau cynefin penodol Glastir yn caniatáu i chi wneud hynny.
- Ni chewch ddefnyddio chwynladdwyr oni bai eich bod yn i) sbot-chwynnu a rheoli chwyn hysbysadwy neu rywogaethau goresgynol estron fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol, llyisiau'r gingroen, canclwm Japan, rhododendron neu Jac y neidiwr ar lefel leol; neu ii) rheoli llystyfiant goresgynol ar nodweddion hanesyddol, adeiladau traddodiadol a strwythurau fferm.
- Peidiwch â defnyddio chwistrelli cemegol i reoli rhedyn cyn cael caniatâd EIA. Mae'n rhaid cael caniatâd Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar gyfer safleoedd sydd o fewn 100 metr i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig; Mae'n rhaid cael caniatâd Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer safleoedd sydd gerllaw cyrsiau dŵr.
- Ni chewch storio tail, silwair na gwastraff arall y fferm ar dir cynefin, ar nodweddion tirwedd neu archeolegol, nac o fewn 10 metr i unrhyw gwrs dŵr.

Efallai y bydd eithriadau i'r amodau uchod ar gynefinoedd yn berthnasol os oes eu hangen i sicrhau manteision amgylcheddol penodol yn y cynllun haen uwch. Os cydymffurfir ag amodau'r eithriad, ni fyddai'n cael ei ystyried yn dramgwydd.

Disgrifiad o'r Tramgwydd

Difrifoldeb

Pa mor fawr

Pa mor barhaol

<p>Tystiolaeth bod tir cynefin wedi cael ei ddifrodi.</p> <p>Ystyr difrodi yw bod y math o llystyfiant sy'n nodweddiadol o'r cynefin yn cael ei golli.</p> <p>Dyma rai enghreifftiau</p> <p>Gorbori neu danbori, sathru ar y tir drwy borthi stoc arno ac achosi rhigolau (ruts) yn y tir â cherbydau.</p> <p>Sylwer y bydd hyn yn berthnasol i bob opsiwn rheoli ac eithrio 14, 14B, 26, 26B, 27, 28, 29, 30, 31, 32B, 33, 34, 34B, 37, 38, 45, 46A, 46B a 46C.</p>	<p>Canolig – Hyd at 1 hectar ac yn cynnwys 1 hectar Uchel – Mwy nag 1 hectar</p>	<p>Mesuradwy</p>	<p>Modd ei gywiro 2 Parhaol</p>
<p>Tystiolaeth bod cynefin wedi cael ei aredig, ei drin neu ei ail-hau.</p> <p>Y gofyn sylfaenol: Angen caniatâd EIA – GAEC I</p>	<p>Canolig – Hyd at 1 hectar ac yn cynnwys 1 hectar Uchel – Mwy nag 1 hectar neu dorri amodau'r gofyn sylfaenol drwy beidio â chael caniatâd EIA</p>	<p>Mesuradwy</p>	<p>Modd ei gywiro 2 Parhaol</p>
<p>Tystiolaeth bod tir yn y cynefin wedi cael ei rowlio neu ei lyfnu ag oged gadwyn yn ystod y cyfnod gwaharddedig yn ystod y dyddiadau a nodir yn y contract</p>	<p>Canolig – Hyd at 3 hectar ac yn cynnwys 3 hectar Uchel – Mwy na 3 hectar</p>	<p>Mesuradwy</p>	<p>Modd ei gywiro 1 Modd ei gywiro 2 Parhaol</p>
<p>Tystiolaeth o osod draeniau newydd neu newid y draeniau sydd yno'n barod.</p> <p>Y gofyn sylfaenol: Angen caniatâd EIA – GAEC I</p>	<p>Isel – Hyd at 10 metr ac yn cynnwys 10 metr Canolig – Mwy nag 10 metr, ac yn cynnwys 50 metr Uchel – Mwy na 50 metr neu dorri amodau'r gofyn sylfaenol drwy beidio â chael caniatâd EIA</p>	<p>Mesuradwy</p>	<p>Modd ei gywiro 1 Modd ei gywiro 2 Parhaol</p>
<p>Tystiolaeth bod mawn wedi cael ei dorri.</p>	<p>Canolig</p>	<p>Maint 1</p>	<p>Parhaol</p>
<p>Tystiolaeth o glirio ffosydd yn ystod y cyfnod gwaharddedig, sef rhwng 1^{af} Mawrth ac 31^{ain} Awst.</p>	<p>Isel – Hyd at 50 metr ac yn cynnwys 50 metr Canolig – Mwy na 50 metr, hyd at 100 metr ac yn cynnwys 100m Uchel – Mwy na 100 metr</p>	<p>Mesuradwy</p>	<p>Modd ei gywiro 1 Modd ei gywiro 2 Parhaol</p>

Tystiolaeth o wasgaru slyri, gwrtaithe anorganig, slag basig, gwymon calchog, slwtsh carthion, slwtsh papur gwastraff neu wastraff arall o'r fferm a'r tu allan i'r fferm; Neu, mae tail buarth wedi cael ei wasgaru ar dir cynefin mewn man na chaniateir gan un o opsiynau cynefin penodol Glastir.	Isel – Hyd at 1 hectar ac yn cynnwys 1 hectar Canolig – Mwy nag 1 hectar, hyd at 3 hectar ac yn cynnwys 3 hectar Uchel – 3 hectar + (neu os yw wedi effeithio ar holl dir cynefin y fferm)	Mesuradwy	Modd ei gywiro 1 Modd ei gywiro 2 Parhaol
Tystiolaeth o ddefnyddio chwynladdwyr ar gyfer rhywbeth ar wahân i reoli chwyn hysbysadwy neu rywogaethau goresgynnol estron. Y gofyn sylfaenol: safonau sylfaenol ar gynhyrchion amddiffyn planhigion. Gofyniad Rheoli Statudol 9.	Canolig Uchel neu dorri amodau'r gofyn sylfaenol gan fod defnyddio chwynladdwyr yn torri amodau'r cod ymarfer ar gyfer Cynhyrchion Amddiffyn Planhigion	Mesuradwy	Parhaol
Tystiolaeth na chafwyd caniatâd EIA / Cyngor Cefn Gwlad Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd i chwistrellu rhedyn yn ôl yr angen.	Uchel	Mesuradwy	Modd ei gywiro 1 Modd ei gywiro 2 Parhaol
Tystiolaeth o storio tail, silwair neu wastraff arall y fferm ar dir gwaharddedig. Gellir disgrifio tir gwaharddedig fel: a) Tir cynefin b) Nodweddion tirwedd neu archeolegol c) O fewn 10 metr i unrhyw gwrs dŵr	Uchel	Maint 1 Maint 4 (os oes dŵr ffo)	Modd ei gywiro 1 Modd ei gywiro 2 Parhaol (os oes tystiolaeth fod dŵr ffo neu os gallai achosi llygredd)

Y Gofyn			
Peidiwch â thurio creigiau, sgri, tywod, cerrig mân, graean, clai na mawn o'r ddaear (ac eithrio ar safleoedd lle ceir caniatâd cynllunio cyfredol).			
Peidiwch â llosgi llystyfiant ar ardaloedd creigiog.			
Disgrifiad o'r Tramgwydd	Difrifoldeb	Pa mor fawr	Pa mor barhaol
Tystiolaeth o durio creigiau, sgri, tywod, cerrig mân, graean, clai neu fawn o'r ddaear heb awdurdod. Y gofyn sylfaenol: diogelu iechyd a diogelwch y bobl sy'n gweithio mewn chwarel, a phobl eraill y gallai gwaith chwarela effeithio arnynt. Rheoliadau Chwareli 1999.	Canolig Uchel (wedi difetha neu symud) neu wedi torri amodau'r gofyn sylfaenol drwy beidio â chadw at reolau iechyd a diogelwch yn ddigonol	Mesuradwy	Parhaol Modd ei gywiro 1 Modd ei gywiro 2

Tystiolaeth o losgi gweddillion / llystyfiant ar ardaloedd creigiog.	Isel	Maint 1	Modd ei gywiro 1 Modd ei gywiro 2 Parhaol
--	-------------	----------------	--

Y Gofyn			
Rhaid cadw cofnodion caeau o bob achos o wasgaru tail buarth, slyri, gwrrtaith, gwymon calchog, calch, plaladdwyr a chwynladdwyr.			
Disgrifiad o'r Tramgwydd	Difrifoldeb	Pa mor fawr	Pa mor barhaol
Dim cofnodion digonol ar gael o bob achos o wasgaru tail buarth, slyri, gwrrtaith, gwymon calchog, calch, plaladdwyr a chwynladdwyr.	Canolig – cofnodion anghyflawn h.y. heb gofnodi popeth Uchel – Dim cofnodion	Maint 1 Maint 4	Modd ei gywiro 1 Modd ei gywiro 2 Parhaol

Y Gofyn			
Ni chewch drin unrhyw dir o fewn 2 fetr i gwrs dŵr neu gynefin gwlyb.			
Disgrifiad o'r Tramgwydd	Difrifoldeb	Pa mor fawr	Pa mor barhaol
Tystiolaeth o drin tir o fewn 2 fetr i gwrs dŵr neu gynefin gwlyb. Y gofyn sylfaenol - Mae'r ffermwr wedi aredig neu drin y tir o fewn metr i ffin draddodiadol, mewn cae/caeau sy'n fwy na 2 hectar o faint - Trawsgydymffurfio GAEC N.	Isel – Yn effeithio ar hyd at 10 metr, ac yn cynnwys 10 metr, o'r ffin Canolig – Yn effeithio ar fwy na 10 metr a hyd at 50 metr, ac yn cynnwys 50 metr, o'r ffin Uchel – Yn effeithio ar fwy na 50 metr o'r ffi neu'n torri amodau'r gofyn sylfaenol am ei fod yn fwy na metr (h.y. torri amodau'r gofyn sylfaenol)	Maint 1 Maint 4 (os oes dŵr ffo)	Parhaol

Y Gofyn			
Peidiwch â gwasgaru tail da byw na dŵr budr ar bridd sydd wedi rhewi'n galed neu sy'n ddwrlawn. Ystyr wedi rhewi'n galed yw pridd sydd wedi rhewi am fwy na 12 awr. Nid yw dyddiau pan fydd pridd yn rhewi dros nos, ond yn dadmer yn ystod y dydd, yn cyfrif.			
Peidiwch â storio tail, silwair na gwastraff arall y fferm mewn ardal sydd wedi'i dynodi'n ardal lle ceir perygl o lifogydd yn ôl Asiantaeth yr Amgylchedd nac ar lethr o fwy na 7° sy'n risg uchel yn ôl diffiniad Asiantaeth yr Amgylchedd (risg 1 mewn 100 mlynedd). Eithriad i hyn yw pan fydd dros 90% o'r daliad o fewn yr ardaloedd diffiniedig hyn. Yn yr achos hwn, mae'n rhaid gofyn i Asiantaeth yr Amgylchedd am gyngor ar le storio addas a dilyn y cyngor hwnnw.			

Disgrifiad o'r Tramgwydd	Difrifoldeb	Pa mor fawr	Pa mor barhaol
Tystiolaeth o wasgaru tail da byw neu ddŵr budr ar bridd sydd wedi rhewi'n galed neu sy'n ddwrlawn.	Isel – Hyd at 3 hectar ac yn cynnwys 3 hectar Canolig – Mwy na 3 hectar a hyd at 10 hectar Uchel – Mwy na 10 hectar	Maint 1 Maint 4 (os oes dŵr ffo)	Parhaol
Tystiolaeth o storio tail da byw, silwair neu wastraff arall y fferm mewn ardal sydd wedi'i dynodi'n ardal lle ceir perygl o lifogydd yn ôl Asiantaeth yr Amgylchedd neu ar lethr o fwy na 7° sy'n risg uchel yn ôl diffiniad Asiantaeth yr Amgylchedd. Noder: Efallai y bydd eithriadau i'r gofynion storio hyn os oes mwy na 90% o'r daliad o fewn yr ardaloedd diffiniedig hyn. Byddai'n rhaid gofyn am gyngor gan Asiantaeth yr Amgylchedd o ran man storio priodol yn yr amgylchiadau hyn, a dilyn y cyngor hwnnw.	Canolig Uchel	Maint 1 Maint 4 (os oes dŵr ffo)	Modd ei gywiro 1 Modd ei gywiro 2 Parhaol (os oes tystiolaeth fod dŵr ffo neu os yw'n bosibl ei fod yn achosi llygredd)

Y Gofyn			
Os ydych yn tyfu indrawn, mae'n rhaid dilyn yr arferion canlynol:			
Er mwyn atal dŵr ffo pridd, mae'n RHAID i chi ddilyn UN o'r arferion canlynol:			
<ol style="list-style-type: none"> 1) Aredig y pridd ar ôl y cynhaeaf ag aradr gynion rhag iddo gywasgu. 2) Hau rhygwellt o dan yr indrawn. 3) Chwalu unrhyw dir sydd wedi'i gywasgu gan olwynion tractor ag oged bigau a phlannu gorchudd gaeaf. 			
Ar lethrau o fwy na 7° sy'n risg uchel yn ôl diffiniad Asiantaeth yr Amgylchedd ac sydd gerllaw cyrsiau dŵr, mae'n rhaid i chi sicrhau bod gennych lain glustogi o led priodol – o leiaf 2 fetr – wrth waelod y cae. Mae priodol yn golygu fel na fydd gwaddodion yn llifo o'r cae.			
Disgrifiad o'r Tramgwydd	Difrifoldeb	Pa mor fawr	Pa mor barhaol
Tystiolaeth nad yw un o'r arferion canlynol, sy'n angenrheidiol er mwyn atal dŵr ffo pridd, wedi cael eu cyflawni: <ol style="list-style-type: none"> a) Aredig y pridd ar ôl y cynhaeaf ag aradr gynion. b) Hau rhygwellt (ryegrass) o dan yr indrawn. c) Chwalu unrhyw dir sydd wedi'i gywasgu gan olwynion tractor ag oged bigau a phlannu gorchudd gaeaf. 	Isel – Hyd at 3 hectar ac yn cynnwys 3 hectar Canolig – Mwy na 3 hectar a hyd at 10 hectar Uchel – Mwy na 3 hectar	Maint 1 Maint 4 (os oes dŵr ffo)	Modd ei gywiro 1 Modd ei gywiro 2 Parhaol

Disgrifiad o'r Tramgwydd	Difrifoldeb	Pa mor fawr	Pa mor barhaol
Tystiolaeth nad yw coed mewn caeau a/neu hen goed wedi cael eu cadw, neu eu bod wedi cael eu cwmpo/symud heb gadw tystiolaeth eu bod yn achosi perygl amlwg. Y gofyn sylfaenol: Cwmpo Coed a Chadw Coed - GAEC J	Isel – mae diamedr y goeden rhwng 4 a 12 modfedd Canolig – mae diamedr y goeden yn fwy na 12 modfedd ac yn llai na 36 modfedd Uchel – mae diamedr y goeden yn fwy na 36 modfedd neu os yw'n hen goed (gweler y nodiadau canllaw ar hen goed) neu dorri amodau'r gofyn sylfaenol drwy beidio â chael trwydded cwmpo coed, neu wedi torri amodau'r Gorchymyn Cadw Coed (TPO)	Maint 1 = 1 goeden Maint 2 = 2-3 coeden Maint 3 = 4-5 coeden Maint 4 = 6 coeden neu fwy	Parhaol
Tystiolaeth o drin y tir o dan y canopi. Tystiolaeth o difrod i'r coed drwy drin y tir yn rhy agos at y gwreiddiau neu fel canlyniad o driff chwynladdwyr.	Isel – Tystiolaeth o drin y tir ond dim difrod Canolig – Tystiolaeth o difrod i'r coed neu gwreiddiau.	Maint 1 = 1 goeden Maint 2 = 2-3 coeden Maint 3 = 4-5 coeden Maint 4 = 6 coeden neu fwy	Modd ei gywiro 1 Modd ei gywiro 2 Parhaol

Y Gofyn			
Rhaid cadw adeiladau traddodiadol a'u hadfeilion ni waeth beth yw eu cyflwr, oni bai eu bod yn achosi perygl amlwg. Ystyr perygl amlwg at y dibenion hyn yw os yw'n ddigon agos at lwybr tramwy cyhoeddus neu ganiataol fel y gallai deunyddiau'n syrthio achosi rhwystr ar y llwybr neu os yw'n ddigon agos at lwybr mynediad arall neu adeilad fel y gallai canghennau'n cwmpo achosi difrod iddynt. Os byddwch yn symud adeilad traddodiadol neu ran o adeilad traddodiadol sy'n beryglus yn eich barn chi, disgwylir i chi ddarparu tystiolaeth ffotograffig i ddangos ei fod yn beryglus.			
Disgrifiad o'r Tramgwydd	Difrifoldeb	Pa mor fawr	Pa mor barhaol
Tystiolaeth nad yw adeiladau traddodiadol a'u hadfeilion yn cael eu cadw ni waeth beth yw eu cyflwr, oni bai eu bod yn achosi perygl amlwg.	Canolig Uchel – wedi cael eu difetha neu symud	Maint 4	Parhaol Modd ei gywiro 1 Modd ei gywiro 2

Y Gofyn
Peidiwch â difrodi unrhyw nodwedd hanesyddol sydd wedi'i nodi ar fap y cytundeb. Mae diffiniadau o ddifrod i nodwedd hanesyddol yn cynnwys UNRHYW UN o'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> Taru ar y pridd neu ei dyrchu, yn enwedig os yw'n ymestyn hyd at o dan yr uwchbridd.

- Dympio neu storio deunydd, gan gynnwys storio dros dro.
- Symud unrhyw ddeunydd, gan gynnwys cerrig, pridd neu isbridd.
- Arwyddion amlwg o erydu (colli ac amharu ar yr uwchbridd neu'r isbridd) yn sgil da byw a cherbydau neu waith amaethyddol arall.
- Plannu coed (ac eithrio plannu coed "tebyg am eu tebyg" yn lle coed eraill mewn tir parc dynodedig).
- Caniatáu i Brysgwydd ddatblygu.
- Aredig neu ail-hau.
- Symud nodweddion cerrig unigol.

Peidiwch â difrodi nac amharu ar unrhyw "Barc Hanesyddol" na "Gardd Hanesyddol" sy'n ymddangos yn y Gofrestr o Barciau a Gerddi Hanesyddol.

Mae difrod yn cynnwys UNRHYW UN o'r canlynol:

- Symud planhigion hanesyddol a nodir yn y Gofrestr.
- Symud neu amharu ar nodweddion strwythurol neu nodweddion tirwedd.
- Ailfodelu'r dirwedd mewn modd sy'n newid y topograffi yn sylweddol.
- Dympio deunyddiau.

Disgrifiad o'r Tramgwydd	Difrifoldeb	Pa mor fawr	Pa mor barhaol
<p>Tystiolaeth bod nodwedd hanesyddol sydd wedi'i nodi ar fap y contract wedi cael ei difrodi.</p> <p>(Gallai hyn ddigwydd o ganlyniad i unrhyw un o'r canlynol)</p> <ol style="list-style-type: none"> Tarfu ar y pridd neu ei dyrchu, yn enwedig os yw'n ymestyn hyd at o dan yr uwchbridd. Dympio neu storio deunydd, gan gynnwys storio dros dro. Symud unrhyw ddeunydd, gan gynnwys cerrig, pridd neu isbridd. Erydu (colli ac amharu ar yr uwchbridd neu'r isbridd) yn sgil da byw a cherbydau neu waith amaethyddol arall. Plannu coed (ac eithrio wrth blannu coed "tebyg am eu tebyg" yn lle coed eraill mewn tir parc dynodedig). Caniatáu i Brysgwydd ddatblygu. Aredig neu ail-hau. Symud nodweddion cerrig unigol. 	<p>Canolig Uchel – wedi cael ei difetha neu ei symud</p>	<p>Maint 4</p>	<p>Parhaol Modd ei gywiro 1 Modd ei gywiro 2</p>

<p>Tystiolaeth o darfu neu amharu ar unrhyw “Barc Hanesyddol” neu “Ardd Hanesyddol” sy’n ymddangos yn y Gofrestr o Barciau a Gerddi Hanesyddol.</p> <p>(Gallai hyn ddigwydd o ganlyniad i unrhyw un o’r canlynol)</p> <ol style="list-style-type: none"> Symud planhigion hanesyddol a nodir yn y Gofrestr. Symud neu amharu ar nodweddion strwythurol neu nodweddion tirwedd. Ailfodelu’r dirwedd mewn modd sy’n newid y topograffi yn sylweddol. Dympio deunyddiau. 	<p>Canolig Uchel</p>	<p>Maint 1</p>	<p>Modd ei gywiro 1 Modd ei gywiro 2 Parhaol</p>
---	-----------------------------	-----------------------	---

<p>Y Gofyn</p>			
<p>Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol sy’n ymwneud â llwybrau tramwy cyhoeddus ar y tir, gan gynnwys peidio ag achosi rhwystr arnynt a’u hadfer ar ôl aredig. Rhaid caniatáu mynediad ar droed i’r holl diroedd y nodwyd eu bod ar gael ar gyfer mynediad o’r fath ar y mapiau a baratowyd o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.</p>			
<p>Disgrifiad o’r Tramgwydd</p>	<p>Difrifoldeb</p>	<p>Pa mor fawr</p>	<p>Pa mor barhaol</p>
<p>Tystiolaeth na chydymffurfiwyd â gofynion cyfreithiol sy’n gysylltiedig â llwybrau tramwy cyhoeddus cyfredol.</p> <p>Gall hyn gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> peidio ag achosi rhwystr arnynt eu hadfer ar ôl aredig caniatáu mynediad ar droed i’r holl diroedd y nodwyd eu bod ar gael ar gyfer mynediad o’r fath o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 	<p>Isel</p>	<p>Maint 1</p>	<p>Modd ei gywiro 1</p>

<p>Y Gofyn</p>			
<p>Er mwyn cynnal y gwerth tirwedd hwn, rhaid sicrhau nad oes unrhyw ysbwriel fel cerbydau wedi’u gadael, ffensys segur, deunyddiau lapio plastig ac offer domestig sydd ddim yn cael eu defnyddio mwyach, yn cael eu gadael ar dir y cytundeb. Dylai unrhyw ysbwriel gael ei glirio o’r eiddo cyn cychwyn y cytundeb.</p>			
<p>Disgrifiad o’r Tramgwydd</p>	<p>Difrifoldeb</p>	<p>Pa mor fawr</p>	<p>Pa mor barhaol</p>

<p>Tystiolaeth bod ysbwriel heb ei glirio ar dir y contract.</p> <p>Y gofyn sylfaenol – Mae Rheoliadau Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn pennu dyletswydd i ofalu sy'n angenrheidiol er mwyn atal llygredd sy'n cael ei achosi gan ysbwriel.</p> <p>Efallai y bydd yn rhaid cael ymweliad gan Asiantaeth yr Amgylchedd os byddwn yn ystyried bod hyn yn ddigwyddiad llygredd.</p>	<p>Isel – Wedi effeithio ar hyd at 9 parcel, ac yn cynnwys 9 parcel</p> <p>Canolig – Wedi effeithio ar fwy na 9 parcel</p> <p>Uchel – Wedi torri amodau'r gofyn sylfaenol os oes ysbwriel yn bresennol ac yn achosi llygredd</p>	<p>Maint 1</p>	<p>Modd ei gywiro 1 (Gellir symud eitemau a chael gwared arnynt o fewn cyfnod priodol penodol)</p>
--	---	-----------------------	---

<p>Amrywiol</p>			
<p>Gwerthu/Trosglwyddo tir o dan gontract</p>			
<p>Rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru cyn pen 30 diwrnod am werthu neu drosglwyddo unrhyw dir a ddaw o dan Gontract Glastir.</p>			
<p>Y Tramgwydd</p>	<p>Difrifoldeb</p>	<p>Pa mor fawr</p>	<p>Pa mor barhaol</p>
<p>Mae'r contract yn mynnu bod angen hysbysu am werthu a throsglwyddo cyn pen 30 diwrnod.</p>	<p>Isel – Derbyn hysbysiad, ond nid cyn pen 30 diwrnod</p> <p>Canolig – Heb dderbyn hysbysiad</p>	<p>Maint 1</p>	<p>Modd ei gywiro 1 Modd ei gywiro 2 Parhaol</p>

<p>Cadw tir o dan gontract</p>	
<p>Y Tramgwydd</p>	<p>Cam Adfer</p>
<p>Yn sgil tynnu rhan o ardal o'r cytundeb, mae'r ardal sydd ar ôl yn llai na'r ardal leiaf angenrheidiol er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y Cynllun.</p>	<p>Adfer yr holl daliadau a wnaed, a dod â'r cytundeb i ben.</p>

<p>Gofynion cyfreithiol a chaniatâd</p>			
<p>Cyfrifoldeb y buddiolwr yw gwneud yn siŵr bod yr holl ofynion cyfreithiol yn cael eu cyflawni, a'i fod yn cael pob caniatâd angenrheidiol yn ôl yr angen.</p>			
<p>Y Tramgwydd</p>	<p>Difrifoldeb</p>	<p>Pa mor fawr</p>	<p>Pa mor barhaol</p>

<p>Tystiolaeth nad yw deiliad y contract yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol ac nad yw wedi cael pob caniatâd angenrheidiol yn ôl yr angen.</p>	<p>Isef</p>	<p>Maint 1</p>	<p>Modd ei gywiro 1 Modd ei gywiro 2</p> <p>Parhaol</p>
---	--------------------	-----------------------	---

ATODIAD 1:

Deddfwriaeth

Mae'r tabl yn dangos y ddeddfwriaeth genedlaethol briodol sy'n berthnasol i weithgarwch amaethyddol.

Wedi'u rhestru yn y Cod Ymarfer Amaethyddol Da (COGAP)

Darpariaeth Statudol	Corff Gweithredu
GWASTRAFF	
Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 Prif amcanion Rhan 1 yw: a) Atal sylweddau penodol rhag cael eu rhyddhau, neu sicrhau bod cyn lleied â phosibl ohonynt yn cael eu rhyddhau, a gwneud yn siŵr bod unrhyw sylweddau o'r fath sy'n cael eu rhyddhau ddim yn achosi niwed; b) Datblygu dull ar gyfer rheoli llygredd sy'n deillio o brosesau diwydiannol ar gyfer yr holl gyfryngau, o ran yr effaith ar yr amgylchedd yn gyffredinol.	Llywodraeth Cymru / Awdurdodau Lleol
Rheoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff (Cymru a Lloegr) 1994 (Diwygiwyd 2005) Mae Rheoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff (1994) yn cynnwys darpariaeth i eithrio rhai gweithgareddau o'r gofyniad am drwydded gwastraff, ac yn cefnogi opsiynau adfer gwastraff gwerthfawr sy'n gynaliadwy, yn ddeniadol o safbwynt economaidd ac yn amgylcheddol gadarn.	Llywodraeth Cymru / Cyfoeth Naturiol Cymru
Rheoliadau Gwastraff Peryglus 2005 Maent yn diffinio gwastraff peryglus fel yr amlinellir gan yr UE, ac yn ei gwneud yn ofynnol i gofrestru safleoedd sy'n cynhyrchu Gwastraff Peryglus ac amodau ar gyfer y rheini sy'n trin Gwastraff Peryglus.	Llywodraeth Cymru / Cyfoeth Naturiol Cymru
Rheoliadau Tirlenwi (Cymru a Lloegr) 2002 Yn sicrhau bod safleoedd tirlenwi mewn lleoedd priodol ac yn cael eu rheoli'n briodol ac ati.	Cyfoeth Naturiol Cymru
Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006 Yn rheoleiddio gwaredu carcasau a sgil-gynhyrchion anifeiliaid nad ydynt yn cael eu bwyta gan bobl.	Awdurdod Lleol

LLES ANIFEILIAID	
<p>Deddf Lles Anifeiliaid 2006 Mae gan berchnogion a cheidwaid anifeiliaid ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod anghenion lles eu hanifeiliaid yn cael eu diwallu fel sy'n ofynnol gan 'arferion da'.</p>	Llywodraeth Cymru
<p>Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Lloegr) 2000 (Diwygiwyd ar gyfer Cymru) 2001 – 2007 Yn gweithredu deddfwriaeth gymunedol sy'n gysylltiedig ag amddiffyn anifeiliaid sy'n cael eu cadw at ddibenion ffermio, a'r safonau sylfaenol ar gyfer gwarchod gwahanol rywogaethau. Gwneir y Rheoliad o dan adran 12 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006.</p>	Llywodraeth Cymru
<p>Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2006</p>	Swyddfa'r Prif Filfeddyg Llywodraeth Cymru
DŴR	
<p>Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 2003 Rhaid asesu effeithiau amgylcheddol prosiectau rheoli dŵr ar gyfer amaethyddiaeth, gan gynnwys prosiectau dyfrio, a allai gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd.</p>	Cyfoeth Naturiol Cymru
<p>Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 Mae'r ddeddf hon yn darparu fframwaith cyfreithiol i sicrhau bod cronfeydd dŵr yn y DU, sy'n dal o leiaf 25,000 metr ciwbig o ddŵr, yn ddiogel.</p>	Cyfoeth Naturiol Cymru
<p>Deddf Adnoddau Dŵr 1991 Yn rheoleiddio gwaith Asiantaeth yr Amgylchedd o ran yr amgylchedd dŵr. Mae'n rhaid i'r Asiantaeth atal cyrsiau dŵr a dŵr daear rhag cael eu llygru, sefydlu amcanion ansawdd dŵr ar gyfer dyfroedd sy'n cael eu rheoli, a rhoi caniatâd i ollwng dŵr i gyrsiau dŵr. Mae'r ddeddf yn galluogi'r Asiantaeth i sefydlu parthau gwarchod dŵr ac i ddynodi parthau perygl nitradau.</p>	Cyfoeth Naturiol Cymru
<p>Rheoliadau Dŵr Daear 1998 Diogelu dŵr daear drwy reoli gollwng neu waredu deunyddiau a allai lygru a bod yn niweidiol.</p>	Cyfoeth Naturiol Cymru

<p>Rheoliadau Rheoli Llygredd (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) 1991 (fel y'u diwygiwyd yn 1997) Rheoli llygredd gwasgaredig o'r ffynonellau hyn.</p>	Cyfoeth Naturiol Cymru
<p>Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd (Cymru a Lloegr) 2000, fel y'u diwygiwyd yn 2000 Mae'r Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd, a wnaed o dan <i>Ddeddf Rheoli ac Atal Llygredd 1999</i>, yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno system rheoli llygredd, sy'n cael ei galw'n Atal a Rheoli Llygredd mewn ffordd Integredig, i ddiwydiannau gan gynnwys amaethyddiaeth, rhwng 2000 a 2007.</p>	Cyfoeth Naturiol Cymru

AER	
<p>Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 Adran 8 – mae'r ddeddf hon yn sicrhau nad yw llygredd o brosesau rhestredig yn cael ei ryddhau i'r awyr, i'r tir nac i ddŵr.</p>	Adran iechyd yr amgylchedd yr awdurdod lleol
<p>Deddf Aer Glan 1993 Yn berthnasol i llygredd sy'n cael ei ryddhau o fwg, graean a dwst yn sgil tanau a phrosesau nad ydynt yn dod o dan ddeddfau eraill.</p>	Llywodraeth Cymru

PRIDD	
<p>Rheoliadau Slwtsh (defnydd amaethyddol) 1989 Safonau ar gyfer defnyddio slwtsh carthion mewn amaethyddiaeth. Bydd y Rheoliadau yn gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 86/278 EEC a wnaed ar 12 Mehefin 1986 ynghylch diogelu'r amgylchedd, a phridd yn benodol, pan mae slwtsh carthion yn cael ei ddefnyddio mewn amaethyddiaeth.</p>	Cyfoeth Naturiol Cymru

CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU	
<p>Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd yn 1991) Dyma'r prif fecanwaith ar gyfer diogelu bywyd gwyllt ym Mhrydain Fawr drwy ddeddfwriaeth. Y ddeddfwriaeth hon yw'r cyfrwng i weithredu'r Confensiwn ar Gadwraeth Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol Ewrop ('Confensiwn Bern') a Chyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd ar Gadwraeth Adar Gwyllt (79/409/EEC) a Chynefinoedd Naturiol a Chreaduriaid a Phlanhigion (92/43/FFC) ym Mhrydain Fawr.</p>	Llywodraeth Cymru / Cyfoeth Naturiol Cymru

<p>Deddf Gwarchod Moch Daear 1992 Yn gwarchod moch daear a'u brochfeydd. Mae'n drosedd lladd, anafu neu gymryd mochyn daear, neu anafu neu amharu ar frochfa os nad oes gennych drwydded gan awdurdod statudol.</p>	Llywodraeth Cymru / Cyfoeth Naturiol Cymru
<p>Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Tir heb ei Drin ac Ardaloedd Lled-naturiol) (Cymru) 2002 Darpariaeth i ystyried, a fydd newidiadau amaethyddol arfaethedig ar dir lled-naturiol yn cael effaith ddifrifol ar yr amgylchedd, cyn cymeradwyo'r newidiadau er mwyn diogelu tir sydd o bwysigrwydd amgylcheddol arbennig.</p>	Llywodraeth Cymru

PLALADDWYR	
<p>Rhan III o Ddeddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd (FEPA) 1985 Rhan III o FEPA 1985 – darparu trwyddedau ar gyfer plaladdwyr a chynhyrchion cysylltiedig er mwyn amddiffyn iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion, diogelu'r amgylchedd a sicrhau dulliau diogel, effeithlon a heb greulondeb o reoli plâu.</p>	Llywodraeth Cymru
<p>Rheoliadau Rheoli Plaleiddiaid (COPR) 1986 Yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n defnyddio plaladdwyr gymryd pob cam rhesymol i amddiffyn iechyd pobl, creaduriaid a phlanhigion, i ddiogelu'r amgylchedd ac, yn benodol, i rwystro llygredd dŵr.</p>	Llywodraeth Cymru
<p>Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion 1997 (diwygiwyd 2005) Yn diffinio amodau ar gyfer gwerthu, cyflenwi, storio, hysbysebu a defnyddio plaladdwyr sydd wedi'u cymeradwyo o dan y Rheoliadau.</p>	Llywodraeth Cymru
IECHYD A DIOGELWCH	
<p>Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 Yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr wella'r broses o reoli iechyd a Diogelwch ac egluro'r gofynion.</p>	Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
<p>Rheoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH) 2002 (fel y'u diwygiwyd) Rheoli cemegau neu sylweddau peryglus eraill yn y gweithle.</p>	Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
<p>Rheoliadau Offer Gwarchod Personol yn y Gwaith 1992 Yn amlinellu egwyddorion ar gyfer sicrhau bod yr offer gwarchod personol yn addas i'r defnyddiwr a'r risg y mae'n gwarchod y defnyddiwr rhagddi.</p>	Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

<p>Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974</p> <p>Mae'n rhaid i gyflogwyr gymryd camau rhesymol i amddiffyn Iechyd, Diogelwch a Lles gweithwyr yn y gwaith; mae'n rhaid i weithwyr ddiogelu eu hiechyd eu hunain; ac mae'n rhaid defnyddio sylweddau'n ddiogel.</p>	<p>Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch</p>
<p>Deddf Priffyrdd 1980 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Hawliau Tramwy 1990)</p> <p>Mae'r diwygiad hwn yn diwygio'r ddeddf sy'n ymwneud â llwybrau tramwy ac amharu ar arwyneb tir sy'n rhan o lwybrau tramwy a'i adfer; sicrhau nad oes cynydau yn cael eu plannu ar lwybrau tramwy; galluogi awdurdodau lleol i weithredu mewn cysylltiad â hynny; ac at ddibenion cysylltiedig.</p>	<p>Awdurdod Lleol</p>
<p>Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990</p> <p>Yn rheoleiddio'r holl weithdrefnau cynllunio.</p>	<p>Awdurdodau Lleol</p>
<p>Deddf yr Amgylchedd 1995 a Rheoliadau Chwareli 1999 (Chwarela yn benodol)</p> <p>Mae'r Rheoliadau'n rheoli iechyd a diogelwch a deddfau sy'n ymwneud â chwarela.</p>	<p>Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch</p>

Y Deddfwriaethau y cyfeirir atynt yn y Canllaw ar Drawsgydymffurfio

Darpariaeth Statudol	Corff Gweithredu
<p>Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 (diwygiwyd 1991)</p> <p>Dyma'r prif fecanwaith ar gyfer diogelu bywyd gwylt (gan gynnwys adar hela) ym Mhrydain Fawr drwy ddeddfwriaeth. Y ddeddf hon yw'r cyfrwng i weithredu'r Confensiwn ar Gadwraeth Bywyd Gwylt a Chynefinoedd Naturiol Ewrop ('Confensiwn Bern') a Chyfarwydebau'r Undeb Ewropeaidd ar Gadwraeth Adar Gwylt (79/409/EEC) a Chynefinoedd Naturiol a Chreaduriaid a Phlanhigion (92/43/FFC) ym Mhrydain Fawr.</p>	Cyfoeth Naturiol Cymru
<p>Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol ar gyfer Tir heb ei Drin ac Ardaloedd Lled-naturiol 2002.</p> <p>Darpariaeth i ystyried, a fydd newidiadau amaethyddol arfaethedig ar dir lled-naturiol yn cael effaith ddifrifol ar yr amgylchedd, cyn cymeradwyo'r newidiadau er mwyn diogelu tir sydd o bwysigrwydd amgylcheddol arbennig.</p>	Llywodraeth Cynulliad Cymru
<p>Rheoliadau Dŵr Daear 1998</p> <p>Mesur i warchod yr amgylchedd, sy'n cwblhau'r gwaith o drosi'r Gyfarwyddeb Dŵr Daear (80/68/EEC) ac yn cynnig mwy o warchodaeth o ran diogelu dŵr daear rhag llygredd.</p>	Cyfoeth Naturiol Cymru
<p>Cyfarwyddeb Nitradau Ewropeaidd 1991</p> <p>Mesur a luniwyd i leihau llygredd dŵr gan nitradau o ffynonellau amaethyddol.</p>	Cyfoeth Naturiol Cymru
<p>Rheoliadau Hylendid Bwyd 2006</p> <p>Mesurau i sicrhau bod y rheini sy'n ymwneud â chynhyrchu bwyd yn cymryd pob cam priodol i reoli peryglon bwyd posibl ym mhob cam – maent yn berthnasol i'r holl gynhyrchwyr bwyd, gan gynnwys ffermwyr a thyfwyr a'r rheini sy'n cynhyrchu bwydydd anifeiliaid.</p>	Llywodraeth Cymru / Awdurdodau Lleol
<p>Rheoliadau Gweddillion Cnydau (Llosgi) 1993 – Rheoliadau llosgi sofr.</p> <p>Yn rheoli risgiau o achosi llygredd aer drwy fwg wrth losgi gweddillion cnydau ar dir amaethyddol.</p>	Llywodraeth Cymru/ Cyfoeth Naturiol Cymru
<p>Deddf Chwyn Niweidiol 1979</p> <p>Yn rheoli'r 5 rhywogaeth o chwyn goresgynnol sy'n niweidiol i gynhyrchu amaethyddol ac anifeiliaid.</p>	Llywodraeth Cymru
<p>Rheoliadau Gwrychoedd 1997</p> <p>Darpariaeth i ystyried a fydd symud gwrych yn cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd neu'r dirwedd hanesyddol.</p>	Awdurdod Lleol
<p>Deddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979</p> <p>Amddiffyn a Diogelu Henebion Rhestredig.</p>	Cadw

<p>Rheoliadau Llosgi Grug a Glaswellt etc.1986 Rheoli llosgi grug, porfa arw, rhedyn, eithin a <i>Vaccinium</i> yng Nghymru a Lloegr.</p>	Llywodraeth Cymru
<p>Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchymyn Cadw Coed) 1969 (fel y'u diwygiwyd 1975, 1981 ac 1988) Diogelu coed sydd o bwysigrwydd hanesyddol, tirweddol ac amgylcheddol.</p>	Awdurdodau Lleol
<p>Deddf Coedwigaeth 1967 (Rhan II) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Coed 1970 a Deddfau Coedwigaeth 1979 a 1986. Rheoliadau Coedwigaeth (Cwmpo Coed) 1979 (fel y'u diwygiwyd yn 1987). Coedwigaeth (Eithriadau rhag Cyfyngu ar Gwmpo Coed) 1979 (fel y'u diwygiwyd 1985, 1988). Rheoliadau Coedwigaeth (Addasiadau Cyfyngiadau Cwmpo Coed) 1985. Yn rheoleiddio trwyddedu a chwmpo coed.</p>	Cyfoeth Naturiol Cymru